# Gwneud penderfyniadau yn y lleoliad gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo’r safon hon â chasglu a dadansoddi gwybodaeth, ac yna ei ddefnyddio fel sail i benderfyniadau pwysig. Fe allai’r safon hon gwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau fel cynnal arolygon cwsmer i benderfynu  pa un ai i addasu gwasanaethau penodol, dadansoddi sut y caiff cyfleusterau eu defnyddio i weld a oes modd eu defnyddio’n fwy effeithiol, dadansoddi swyddi i benderfynu pa fath o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ddylai eich staff feddu arnyn nhw, edrych ar ddyddlyfrau ac ymchwilio’r farchnad leol i benderfynu a ddylid cyflwyno gwasanaeth newydd, neu gasglu a dadansoddi gwybodaeth ariannol i ddatblygu cynllun busnes.

**Prif ddeilliannau’r safon hon ydy:**

1. cael gwybodaeth i wneud penderfyniadau
2. dadansoddi gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau
3. cynghori a hysbysu eraill ynghylch penderfyniadau

Mae’r safon hon ar gyfer rhywun sy’n gweithio yn y maes gwaith chwarae, sy’n gweithio ar lefel reolaethol mewn amryw o swyddi traws-sector; sydd mewn swydd lle mae angen rheoli nifer o leoliadau gwaith chwarae sydd a’r prif ddiben o roi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae fel maen nhw’n dewis ac yn dymuno ei wneud. Byddant yn gyfrifol am redeg y lleoliadau gwaith chwarae hyn, am nifer o staff ac am eu lles.

**Mae’r safon hon yn ategu’r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â’r rhain, a lle bo’n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau**

1. casglu **gwybodaeth** i gefnogi'ch dewis ynghylch y **systemau a'r gweithdrefnau mae angen penderfyniad yn eu cylch**
2. gwneud gwaith ymchwil i gael yr wybodaeth fydd yn gymorth i chi wneud penderfyniadau ac sy'n cwrdd â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
3. trefnu, cofnodi a chadw'r wybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol

**Dadansoddi gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau**

1. dadansoddi **gwybodaeth** fel bod modd gwneud penderfyniadau dibynadwy
2. cadw cofnodion o'r **dadansoddiad** sy'n ddigonol i allu dangos y rhagdybiaethau a'r penderfyniadau y daethpwyd iddyn nhw ym mhob cam
3. gwahaniaethu rhwng barn a ffaith wrth ddod i gasgliad ynglŷn â chanlyniad y dadansoddiad.
4. dod i gasgliad yn seiliedig ar y **dadansoddiad** gyda dadl resymegol a thystiolaeth briodol.

**Cynghori a hysbysu eraill**

1. **cyfleu** eich penderfyniad i **eraill** yn unol â gweithdrefnau a pholisïau eich sefydliad
2. darparu gwybodaeth o'ch canfyddiadau i ddangos sut ddaethoch chi i'ch penderfyniad
3. cadarnhau fod **eraill** yn ymwybodol o'r farn y daethoch chi iddi o ran y **systemau a'r gweithdrefnau oedd angenpenderfyniadau yn eu cylch**
4. gwneud argymhellion ynglŷn â gwella **systemau a phrosesau sydd angen penderfyniadau** i'r bobl berthnasol
5. sicrhau fod pobl **eraill** yn dilyn eich systemau a'ch gweithdrefnau
6. defnyddio adborth gan eraill i wella darpariaeth **systemau a phrosesau sydd angen penderfyniadau**

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cael gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy’n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o’r egwyddorion i’ch gwaith chi
2. sut i farnu ansawdd yr **wybodaeth** sydd ei hangen i gefnogi penderfyniadau mewn cyd-destunau gwahanol
3. ffynonellau **ymchwil** sy’n gallu llywio’ch penderfyniad o ran **systemau a gweithdrefnau sydd angen penderfyniad**
4. dulliau **ymchwilio** a’u manteision a’u hanfanteision
5. sut i adnabod canfyddiadau anghyson, amwys neu annigonol a sut i ymdrin â’r problemau hyn
6. dulliau gwahanol o gofnodi a chadw eich canfyddiadau a’u manteision a’u hanfanteision, yn unol â pholisïau eich sefydliad a gofynion cyfreithiol

**Dadansoddi gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau**

1. pwysigrwydd gwaith ymchwil effeithiol a rheolaeth effeithiol o’ch canfyddiadau
2. y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn a sut i adnabod y rhain wrth ddod i gasgliad a phenderfynu ar rywbeth
3. pwysigrwydd cefnogi’ch casgliadau a’ch penderfyniadau gyda dadl resymegol a thystiolaeth briodol

**Cynghori a hysbysu eraill am y penderfyniadau**

1. y gwahanol ffyrdd o gyflwyno **gwybodaeth** feintiol ac ansoddol
2. sut i **gyfleu** eich penderfyniad i **eraill** mewn ffordd addas
3. ffyrdd o fonitro ac annog **eraill** a’u galluogi i ddilyn eich penderfyniadau
4. pam ei bod hi’n bwysig cael adborth gan **eraill**
5. pam ei bod hi’n bwysig rhoi cyfleoedd i aelodau’r tîm wneud argymhellion ar welliannau i **systemau a gweithdrefnau sydd angen penderfyniad yn eu cylch**

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Gwybodaeth**

1. manwl
2. cyfoes
3. perthnasol
4. digonol
5. cyson
6. eglur

**Systemau a gweithdrefnau sydd angen penderfyniad** *(o leiaf 3 allan o 4)*

1. yn ymwneud â'r sefydliad i gyd
2. yn benodol i chi a'ch tîm
3. mewn ymateb i gais
4. o'ch pen a'ch pastwn eich hun

**Ymchwil**

1. ansoddol
2. meintiol
3. dibynadwy
4. effeithiol
5. eang
6. defnydd effeithiol o adnoddau
7. cyfoes

**Dadansoddi**

1. ffurfiol ac wedi ei gynllunio
2. anffurfiol ac fel bo angen

**Cyfathrebu**

1. ar lafar
2. yn ysgrifenedig

**Eraill** *(o leiaf 2 allan o 3)*

1. cydweithwyr yn gweithio ar yr un lefel
2. uwch-reolwyr a noddwyr
3. pobl allanol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Gwybodaeth**

1. manwl
2. cyfoes a dealltwriaeth
    1. perthnasol
    2. digonol
    3. cyson
    4. eglur

**Ymchwil**

1. ansoddol
2. meintiol
3. dibynadwy
4. effeithiol
5. eang
6. defnydd effeithiol o adnoddau
7. cyfoes

**Systemau a gweithdrefnau sydd angen penderfyniad**

1. yn ymwneud â'r sefydliad i gyd
2. yn benodol i chi a'ch tîm
3. mewn ymateb i gais
4. o'ch pen a'ch pastwn eich hun

**Dadansoddi**

1. ffurfiol ac wedi ei gynllunio
2. anffurfiol ac fel bo angen

**Cyfathrebu**

1. ar lafar
2. yn ysgrifenedig

**Eraill**

1. cydweithwyr yn gweithio ar yr un lefel
2. uwch-reolwyr a noddwyr

3. pobl allanol

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw’n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7.
Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw’n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8.
Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu’r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Man chwarae**
Man chwarae sy’n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â’r byd seibr.

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

Gwneud penderfyniadau yn y lleoliad gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | Newydd |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | gwneud penderfyniadau; lleoliad gwaith chwarae |